

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward D6W Ysbyty Brenhinol Gwent

Dyddiad y gweithgarwch: 13 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward D6W Ysbyty Brenhinol Gwent fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Ward bediatrig oedd hi ond mae bellach yn ward profi COVID-19 ddynodedig. Mae 13 o ystafelloedd sengl, gan gynnwys dwy ystafell ensuite sengl, ar gael ar gyfer y cleifion.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward, gyda'r uwch-nyrs a dirprwy reolwr y ward yn bresennol hefyd, ar 13 Ebrill 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei defnyddio i ynysu cleifion nes cadarnhau a oedd gan y cleifion COVID-19 ai peidio. Yna roedd y cleifion yn cael eu symud i ward COVID-19 positif neu ward oren (dim COVID-19) yn dibynnu ar ganlyniad y swab. Dywedwyd wrthym fod cleifion positif yn cael eu trosglwyddo o'r ward yn ddi-oed. O bryd i'w gilydd roedd oedi wrth drosglwyddo cleifion negatif oherwydd y galw am welyau a faint o welyau oedd ar gael ar draws y llwybrau amrywiol yn yr ysbyty. Byddai achosion o'r fath yn cael eu huwchgyfeirio at yr Hwb, lle roedd gwelyau yn cael eu rheoli, i ddatrys unrhyw broblemau. Roedd y rheolwr presennol wedi bod yn y swydd ers mis Chwefror 2021.

Disgrifiwyd y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd oherwydd COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys glanhau'r ward deirgwaith y dydd a, hefyd, roedd glanhawyr rheolaidd wedi cael eu dyrannu i'r ward. Cyflwynwyd cynorthwyr ar y ward er mwyn helpu gyda'r gwaith cynnal a chadw. Roeddent yn helpu i reoli'r amserlenni glanhau a materion anghlinigol eraill, megis cynnal y stoc o gyfarpar diogelu personol.

Dywedwyd wrthym fod yr adran iechyd a diogelwch yn cwblhau gwiriadau rheolaidd o'r ward a'r ystafell egwyl er mwyn sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, cwblhawyd asesiad risg COVID-19 benodol o'r ward er mwyn sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol ac er mwyn sicrhau bod y staff, y cleifion a pherthnasau yn cael eu diogelu. Disgrifiwyd yr asesiadau risg a oedd yn benodol i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg rheoli cwmpadau, asesiadau o ganllawiau gwelyau, Waterlow¹ (dyddiol), adnodd sgrinio risg maeth (sef WASSP²) ac asesiadau risg gofal y geg.

Dywedodd y staff y gwnaethom gyfnewid â nhw fod drysau pob ciwbicl yn cael eu cadw ar gau er mwyn cydymffurfio â mesurau rheoli heintiau a chynnal urddas y cleifion. Fodd bynnag, os oedd gan glaf nam gwybyddol a'i fod yn wynebu risg uchel o gwmpo, roedd gofal uwch yn cael ei ystyried a oedd hefyd yn sicrhau bod ei urddas datganedig yn cael ei gynnal. Ward bediatreg oedd hon â dwy ystafell ensuite sengl. Roedd y rhain bellach yn cael eu defnyddio

¹ Mae Cerdyn Sgorio Waterlow yn asesiad o'r saith ffactor risg y gwyddys eu bod yn cyfrannu at ddatblygu briwiau pwyso.

² Pwysau, Chwant bwyd, Gallu bwyta, Ffactor straen, Briw/clwyf pwysau (adnodd WAASP).

i drin cleifion dibynnol yr oedd angen cyfarpar a chymhorthion arnynt, am nad oedd toiledau eraill ar y ward yn addas i'w defnyddio gyda chymhorthion symudedd ar hyn o bryd.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn cael eu sgrinio'n ddyddiol am symptomau COVID-19 ac roedd tymereddau yn cael eu cofnodi ar ddechrau pob sifft. Roedd gan yr holl staff becynnau llif unffordd³ ac roeddent yn cael prawf ddwywaith yr wythnos. Roedd y mwyafrif o'r staff wedi cael eu brechu.

Roedd gan y ward fesurau ar waith i sicrhau bod amgylchiadau unigol claf yn cael eu hystyried, er mwyn cydbwysu mesurau angenrheidiol COVID-19 â chefnogi'r claf, er enghraifft gofal diwedd oes ac ymweliadau. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, roedd y ward yn cyfyngu ar ymweliadau ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19 rhwng y cleifion a'u perthnasau. Dim ond y cleifion hynny â dementia neu a oedd ar ddiwedd eu hoes a oedd yn gallu cael ymwelwyr. Roedd unrhyw ymwelwyr yn cael eu profi cyn ymweld â'r ward ac roeddent yn cael cyfarpar diogelu personol. Yna roeddent yn cael gwybodaeth am yr hyn y gallent ac na allent ei wneud ar y ward.

Dywedwyd wrthym y trafodwyd yr archwiliad amgylcheddol diweddaraf o'r ward a'r cynllun gweithredu dilynol â'r staff yng nghyfarfod y ward. Yn ogystal, byddai materion eraill yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn, megis esbonio i staff bwysigrwydd gwisgo cyfarpar diogelu personol, trosglwyddo gwybodaeth yn gyffredinol a negeseuon pwysig eraill.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiwyd y newidiadau a oedd wedi cael eu rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal. Roedd yn rhaid i unrhyw ymwelwyr, gan gynnwys staff ymweld, lofnodi wrth gyrraedd y ward er mwyn helpu gyda'r system monitro ac olrhain, ac roedd eu tymheredd yn cael ei gymryd hefyd. Dywedwyd wrthym fod weips diheintio yn cael eu defnyddio i lanhau'r cyfarpar. Roedd yr ystafelloedd yn cael eu glanhau deirgwaith cymaint â diheintydd clorin, a hefyd roedd goleuadau uwchfioled yn cael eu defnyddio pan roedd yr ystafelloedd yn cael eu glanhau'n drylwyr rhwng cleifion. Roedd menig a ffedogau yn cael eu cadw y tu allan i'r ciwbiclau i'r staff eu defnyddio, yn ogystal â

³ Pecynnau Prawf "Llif Unffordd" neu "Gyflym" i gynnal profion cyflym sy'n dangos a oes antigenau COVID-19 yn bresennol. Gallwch gael canlyniad o fewn 15 munud heb orfod anfon y pecyn i ffwrdd i labordy.

gel alcohol. Roedd nifer o fannau lle y gellid casglu masgiau ar y ward, ac roedd y cynorthwywyr ar y ward yn eu hailgyflenwi. Roedd tair gorsaf cyfarpar diogelu personol ar y ward, wrth y fynedfa, yn y canol ac ar ddiwedd y ward.

Gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y ward yn dilyn prosesau'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyd ag atal a rheoli heintiau drwy archwiliad un claf, un diwrnod⁴ y ward. Dywedwyd wrthym fod amserlenni glanhau dyddiol yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl ardaloedd clinigol ac anghlinigol. Yna roedd y rhain yn cael eu harchwilio gan y nyrs â chyfrifoldeb ar ddiwedd yr wythnos er mwyn sicrhau bod y ward yn cydymffurfio. Roedd y staff yn cael gwybod am unrhyw gamau gweithredu gofynnol ac roedd y canlyniadau yn cael eu lanlwytho bob mis i'r system mesur safonau iechyd a gofal a ddefnyddir.

Dywedwyd wrthym fod y nyrs rheoli heintiau arbenigol bellach yn cynnal archwiliad bob wythnos, mewn ymateb i'r pandemig, a bod yr uwch-nyrs yn gwneud gwaith gwylidwriaeth dyddiol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cydymffurfiaeth o ran hylendid dwylo a'r amserlen glanhau, archwilio'r cyfarpar o ran matresi a chomodau, a monitro cyfraddau heintio.

Gwelsom dystiolaeth o broses dadansoddi gwraidd y broblem⁵ rheoli heintiau ar gyfer pob achos o haint a ddelir wrth gael gofal iechyd. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu gan reolwr y ward a'r uwch-nyrs. Byddai'r holl wersi a champau gweithredu yn cael eu rhannu â holl staff y ward. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw risgiau newydd a nodwyd sy'n ymwneud â'r risg o haint yn cael eu huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu, bod camau gweithredu yn cael eu cymryd a'u bod yn cael eu cofnodi ar y gofrestr risg. Roedd hysbysiadau gweledol ac ysgrifenedig ar gael i'r staff, y cleifion a pherthnasau (megis croesau diogelwch⁶). Roedd dau aelod enwebedig o staff a oedd yn gyswllt atal heintiau, sef un nyrs ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd. Roedd arwyddion clir yn cael eu harddangos mewn perthynas â mesurau COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod digon o gyfarpar diogelu personol addas ar y ward. Dywedwyd wrthym nad oedd y staff wedi gorfod cyflawni unrhyw weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol⁷ ond roeddent yn ymwybodol o'r cyfarpar diogelu personol a'r mesurau rhagofalus sy'n ofynnol. Dywedwyd wrthym fod modiwlau hyfforddi ychwanegol wedi cael eu hychwanegu at y system

⁴ At hynny, gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau amrywiol, sef un claf, un diwrnod, gofal heb ei drefnu, a oedd yn gwirio'r cleifion, y staff ac ymddangosiad cyfarpar, yn ogystal ag adolygiad o gofnodion nyrsio, a oedd â chanlyniadau cadarnhaol. Roedd y ddogfen hefyd yn adolygu cydymffurfiaeth â phob agwedd ar ddogfennaeth ac asesiadau'r cleifion ac addaswydd yr amgylchedd a llesiant y claf.

⁵ Mae dadansoddiad o wraidd y broblem yn broses systematig ar gyfer nodi "gwraidd" problemau neu ddigwyddiadau ac yn ddull ar gyfer ymateb iddynt. Mae dadansoddiad o wraidd y broblem yn seiliedig ar y syniad sylfaenol bod angen gwneud mwy na dim ond "diffodd tanau" i reoli problemau sy'n datblygu. Mae angen dod o hyd i ffordd i'w hatal hefyd.

⁶ Mae pob croes diogelwch yn cynrychioli un mis calendr. O fewn pob croes mae 31 o flychau, am fod pob blwch yn cynrychioli diwrnod unigol. I'r chwith i'r groes mae allwedd sy'n rhoi gwybod i chi bod pob lliw yn cynrychioli canlyniad diwrnod unigol ar eich ward neu yn eich cartref gofal.

⁷ Gweithdrefn feddygol neu ofal iechyd yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol sy'n arwain at gynhyrchu gronynnau yn yr awyr neu ddefnynnau anadlol, a all fod yn bathogenig.

Cofnod Staff Electronig (ESR) a ddefnyddir mewn perthynas â hyfforddi ac arfarnu'r staff. Yn ogystal, roedd y nyrsys atal a rheoli heintiau yn yr ysbyty ar gael i ddarparu cyngor a hyfforddiant ychwanegol, mewn perthynas â rheoli heintiau'n benodol.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

O edrych ar yr hunanasesiad a ddarparwyd, gwnaethom nodi bod rheolwr y ward yn sicrhau bod y lefelau staffio yn bodloni'r lefelau y cytunwyd arnynt drwy rota iechyd. Roedd y rota iechyd yn cael ei gymeradwyo gan yr uwch-nyrs hyd at dri mis ymlaen llaw. Roedd yn adolygu'r rota unwaith eto 48 awr ymlaen llaw er mwyn nodi unrhyw ddiffygion a rheoli'r rhain neu uwchgyfeirio'r mater yn briodol. Roedd rheolwr y ward a'r uwch-nyrs yn adolygu'r lefelau staffio yn ddyddiol ac yn wythnosol ac roedd cynlluniau yn cael eu datblygu a'u rhannu â'r tîm y tu allan i oriau. Gofynnir i staff newid sifftiau er mwyn camu i'r adwy, os bydd angen. Roedd staff asiantaeth yn cael eu bloclogi hefyd er mwyn helpu'r ward ac roedd sifftiau gwag yn cael eu hysbysebu i fanc adnoddau'r bwrdd iechyd ac asiantaethau. Gwelsom dystiolaeth o bolisi uwchgyfeirio ar gyfer staff nyrsio. Roedd y ddwy ward wedi'u staffio'n briodol, o'r ward orthopedig ddewisol flaenorol, ac roeddent yn cael eu cefnogi gan staff ychwanegol o'r banc adnoddau.

Dywedwyd wrthym am yr hyn a wneir gan y ward i sicrhau bod hyfforddiant perthnasol ar gael i'r staff. Roedd rhywfaint o'r hyfforddiant ystafell ddosbarth wedi dod i ben oherwydd y pandemig, ond roedd wedi aildechrau eto yn ddiweddar. Roedd hefyd hyfforddwr rhaeadru codi a chario ar y ward a fyddai'n hyfforddi'r staff. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant staff yn cael ei gynnal ar-lein, a bod modd gwneud y rhan fwyaf gartref. Dywedodd rheolwr y ward fod y staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael amser penodol i gynnal eu cymwyseddau a chwblhau hyfforddiant er mwyn darparu gofal yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd cydymffurfiaeth y staff yn amrywio o 63 y cant ar gyfer codi a chario i 90 y cant ar gyfer cydraddoldeb. Dywedwyd wrthym fod nifer o aelodau o'r staff yn newydd-ddyfodiaid a'u bod yn gweithio eu ffordd drwy'r hyfforddiant gorfodol.

Siaradodd rheolwr y ward am y cymorth a'r oruchwyliaeth a roddir i staff y ward. Roedd y staff yn cael eu rhoi ar y rota er mwyn sicrhau bod nyrs gymwys ar ddyletswydd gyda nyrs llai cymwys. Roedd gan reolwr y ward statws ychwanegol a byddai'n dod i'r ward yn ôl yr angen, i siarad â'r staff a chynnig cymorth lle y bo angen. Roedd y staff newydd yn cael 'cyfaill' i'w

mentora a'u goruchwyllo'n glinigol.

Roedd yr adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu (PADR) yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn datblygu ymhellach a bod cyfleoedd yn cael eu creu mewn perthynas â datblygu proffesiynol, arweinyddiaeth a sgiliau clinigol. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn yr hunanasesiad yn nodi bod cydymffurfiaeth o 70 y cant o ran yr adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu. Yn ystod y gwiriad ansawdd dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth bellach yn 85 y cant.

Siaradodd y rheolwyr am y seicolegwyr a ddynodwyd i wardiau gwahanol i roi cymorth i'r staff yn ystod y pandemig. Roedd y seicolegwyr ar gael i'r staff yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym am y wybodaeth ar-lein am lesiant staff sydd ar gael ar fewnrwyd y bwrdd iechyd. Roedd yn cynnwys adnodd newydd i gynnal iechyd meddwl y staff yn ogystal â gwasanaethau iechyd galwedigaethol a gwasanaethau cwnsela sydd ar gael gan y bwrdd iechyd.

Cawsom gopi o'r polisi corfforaethol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn barod am argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Roedd y cynllun hwn yn nodi sut y byddai'r bwrdd iechyd yn delio â heriau'r pandemig. Roedd yr hunanasesiad a ddarparwyd yn nodi bod gwaith cynllunio yn ystod pandemig yn gymhleth, bod angen i wasanaethau fod yn hyblyg a bod yn rhaid i'r ymateb fod yn ystwyth am fod COVID-19 yn newid o hyd.

Trafodwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol⁸ (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniad wedi cael ei wneud mewn ffordd briodol a sensitif. Dywedwyd wrthym fod y meddygon yn trafod nodiadau uwchgyfeirio â'r cleifion wrth eu derbyn i gael triniaeth. Roedd yn cynnwys pa drefniadau uwchgyfeirio gofal yr oedd eu hangen petai'r cleifion yn cael eu trosglwyddo i ysbyty arall. Yn ogystal, roedd cynllun triniaeth gofal ar gyfer cleifion COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys manylion am berthnasau ac os oedd achos o ddirywio y dylid cynnal trafodaethau cyn gynted â phosibl. Os nad oedd gan y cleifion alluedd, byddai'r staff yn cysylltu â'r perthynas agosaf.

Dywedwyd wrthym fod y ward yn gweithredu ar sail cydraddoldeb a hawliau. Roedd pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac roedd gan y bwrdd iechyd gyfres o werthoedd a chredoau, gan gynnwys urddas a pharch, yr oedd y staff yn cydymffurfio â hi. Roedd llyfryn adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu a oedd yn cynnwys gwerthoedd y bwrdd iechyd yn ogystal â safonau'r cyngor nyrsio a bydwreigiaeth. Hefyd, roedd angen i'r staff gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

⁸ <https://www.nhs.uk/conditions/do-not-attempt-cardiopulmonary-resuscitation-dnacpr-decisions/>

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.